# Uned 1 UG: Ein Hamgylchedd Adeiledig

## 2.1.1: ADEILADU CYLCH BYWYD (2 o 2)

### 3. GWEITHREDU (a chynnal a chadw)

Mae **gweithredu** yn cyfeirio at reoli amgylchedd adeiledig sy'n cael ei ddefnyddio. Gall gynnwys:

- rheoli a monitro systemau gwresogi, oeri a goleuo
- darparu gwasanaethau diogelwch, glanhau a gwasanaethau eraill, gan gynnwys gweithdrefnau profi a gwacáu.

**Cynnal a chadw** yw trwsio / atal dadfeilio, a difrod a achosir gan y tywydd, heneiddio a defnydd cyffredinol. Bydd y gwaith cynnal a chadw naill ai'n:

Waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, h.y. gwneir yn rheolaidd, i gadw rhywbeth yn gweithio ac ymestyn ei fywyd

NEU'N

Gynnal a chadw cywirol, sy'n golygu trwsio rhywbeth sydd wedi torri.

**Llawlyfr Gweithredu a Chynnal a Chadw Adeiladau:**

Dogfen a roddir i'r cleient ar ôl cwblhau'r cam adeiladu. Mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am weithredu, cynnal a chadw ac wedyn dymchwel adeilad.

### 4. DYMCHWEL

Mae dymchwel yn weithgaredd peryglus sy'n gofyn am reoli risg yn effeithlon, rheoli amgylcheddol a safleoedd, a chynllunio gofalus. Mae'n golygu tynnu strwythur i lawr a gwaredu'r deunyddiau gwastraff sy'n deillio o hynny. Gall olygu defnyddio ffrwydradau, dymchwel peirianyddol neu dynnu i lawr â llaw.

### Dymchwel neu addasu at ddiben gwahanol

Mae adeiladau gwag yn dueddol o ddioddef fandaliaeth a diraddio naturiol ac maen nhw'n aml wedi'u dymchwel, gan y credid bod hyn yn fwy proffidiol na'u hatgyweirio.

Fel dewis arall, gall addasu adeiladau nad yw'n cael eu defnyddio at ddiben gwahanol chwarae rhan bwysig yn y gwaith o adfywio'r amgylchedd adeiledig, gan ddefnyddio eiddo gwag unwaith eto i gwrdd ag anghenion sy'n newid. Bydd addasu at ddiben gwahanol yn ymestyn cylch bywyd adeilad ac mae'n ffordd gynaliadwy o adeiladu.

Gellir disgrifio addasu at ddiben gwahanol fel newid adeilad i weddu i amodau newydd, fel newid defnydd neu faint neu ofynion perfformiad, a gall gynnwys:

- Trosi: newid mewn swyddogaeth neu ddefnydd, fel trosi bloc swyddfa i ddefnydd preswyl.
- Estyniad: cynyddu mewn maint, sy'n gallu bod yn ehangu llorweddol neu fertigol.
- Adnewyddu: gwaith sy'n gysylltiedig â newid mewn perfformiad.

Yn y DU mae tua 40% o'r holl waith adeiladu yn gysylltiedig ag adnewyddu a chynnal a chadw adeiladau sy'n bodoli eisoes.

### Caniatâd i ddymchwel

Mae angen **caniatâd cynllunio** i ddymchwel unrhyw adeilad rhestredig, unrhyw adeilad mewn ardal gadwraeth, cyfleusterau cyhoeddus, fel theatr, ac ar gyfer unrhyw adeilad sydd wedi'i nodi'n anniogel neu'n anaddas i fyw ynddo, oherwydd gweithredoedd neu esgeulustod perchennog yr adeilad.

**Rheoliadau Adeiladu.** Rhaid rhoi chwe wythnos o rybudd ymlaen llaw i adran Rheoli Adeiladu'r Awdurdod Lleol cyn i'r gwaith dymchwel ddechrau.

### Gweithdrefnau dymchwel

Mae'r Rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM - Construction Design and Management) yn nodi bod yn rhaid cynllunio a gwneud yr holl waith dymchwel er mwyn atal perygl yn unol **â chynllun cyn dymchwel** y mae'n rhaid ei gofnodi'n ysgrifenedig cyn i'r gwaith dymchwel ddechrau, er mwyn rhoi manylion am:

- ddeunyddiau peryglus
- cyfleustodau a datgysylltiadau
- strwythurau a waliau cydrannol
- amodau safle, cyfyngiadau a diogelwch
- datganiadau dull ar gyfer
  - tynnu elfennau anstrwythurol yn ofalus
  - tynnu uwchstrwythur i lawr
  - cael gwared ar slabiau a sylfeini
  - gorffeniad y safle.

### Deunyddiau sy'n deillio o ddymchwel

Gellir symud gwastraff dymchwel i safleoedd tirlenwi, a fydd yn cynnwys costau ariannol ac amgylcheddol, neu gall gael ei rannu a'i ddefnyddio fel sylfeini ac is-seiliau ar gyfer adeiladwaith newydd. Gellir adennill elfennau adeiladu gwerthfawr, megis blociau cerrig, briciau, llechi toeau, ac adrannau dur, i'w hailddefnyddio gydag ailbrosesu cyfyngedig, neu gael eu hailgylchu, gan gadw deunyddiau crai, yr ynni a ddefnyddir i greu cynhyrchion newydd, a lleihau llygredd sy'n deillio o dirlenwi a gweithgynhyrchu.

### Safleoedd tir llwyd

Bydd dymchwel yn arwain at safle tir llwyd sydd â gwasanaethau a seilwaith sy'n bodoli eisoes ac felly potensial i'w ail-ddatblygu. Gall hyn olygu rhai costau oherwydd halogi tir ond bydd yn glanhau perygl posibl i iechyd a rhywbeth sy'n debygol o fod yn amhleserus i'r llygad.